Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID

# Plismona, Plant a Thrais

## Crynodeb o'r argymhellion

### Trin plant fel plant

1

### Troi plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn arferion bob dydd.

**Pam?** Mae plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn helpu i atal trais, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn gwella diogelu, ond mae ymarfer yn dal yn anghyson.

**Y camau gweithredu a argymhellir:**

**A.** Gosod disgwyliadau clir ar gyfer rhyngweithio â phlant yn eich heddlu.
**B.** Atgyfnerthu'r disgwyliadau hyn drwy arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a hyfforddiant.
**C.** Creu cyfleoedd diogel, strwythuredig i blant ddylanwadu ar blismona lleol.

2

### Archwilio sut rydych chi'n diogelu plant i atal trais.

**Pam?** Gall diogelu da atal trais, ond nid yw rhyngweithio'r heddlu â phlant yn arwain yn gyson at ddiogelu effeithiol.

**Y camau gweithredu a argymhellir:**

**A.** Cyhoeddi safon diogelu plant ar draws yr heddlu.
**B.** Craffu ar arferion diogelu, gan gynnwys defnyddio'r ddalfa ar gyfer plant.
**C.** Gwella perfformiad diogelu a mynd i'r afael ag anghymesuredd.

### Canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio

3

### Defnyddio dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau.

**Pam?** Mae plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau (POP) yn effeithiol o ran lleihau trais.

**Y camau gweithredu a argymhellir:**

**A.** Galluogi POP sy'n seiliedig ar ddata drwy gefnogi dadansoddwyr a chryfhau ansawdd data (yn enwedig mewn perthynas â VAWG ac ethnigrwydd).
**B.** Datblygu cynlluniau POP o ansawdd uchel gyda phartneriaid a chymunedau lleol.
**C.** Dewis ymatebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u teilwra i'ch problem trais.
**D.** Monitro gweithgarwch POP a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella ac anghymesuredd.

## 4 Atal dulliau niweidiol a dadflaenoriaethu dulliau gweithredu heb dystiolaeth.

**Pam?** Dylid cyfeirio adnoddau cyfyngedig at ddulliau sydd â'r siawns orau o leihau trais.

**Y camau gweithredu a argymhellir:**

**A.** Cynnal asesiad blynyddol o'ch gweithgarwch atal trais lleol.

**B.** Rhoi'r gorau i ddarparu dulliau sy'n debygol o gynyddu trais (gan gynnwys rhaglenni ymwybyddiaeth o garchardai a bŵt-camps).

**C.** Dadflaenoriaethu dulliau gweithredu lle nad yw'r effaith ar drais yn hysbys (gan gynnwys rhaglenni addysg cyllyll, ymgyrchoedd yn y cyfryngau a'r heddlu mewn ysgolion).

## 5 Gwella ansawdd stopio a chwilio.

**Pam?** Mae ymarfer stopio a chwilio o ansawdd da yn fwy tebygol o leihau trais. Gall ymarfer o ansawdd gwael arwain at annhegwch a niweidio ymddiriedaeth mewn plismona.

**Y camau gweithredu a argymhellir:**

**A.** Craffu ar weithgareddau stopio a chwilio plant, gan wella cryfder y sail dros ryngweithio ac ansawdd y rhyngweithio hwnnw.

**B.** Monitro, cyhoeddi a mynd i'r afael ag anghymesuredd hiliol wrth stopio a chwilio plant.

**C.** Darparu hyfforddiant gloywi ar stopio a chwilio i swyddogion rheng flaen.

# Dargyfeirio'n dda

## 6 Creu dull effeithiol a theg o ddatrys y tu allan i'r llys.

**Pam?** Gall datrysiadau y tu allan i'r llys (OOCR) leihau trais, ond maent yn aml yn cael eu defnyddio'n aneffeithiol ac yn annheg.

**Y camau gweithredu a argymhellir:**

**A.** Sefydlu protocol OOCR ar gyfer plant gyda'ch gwasanaeth(au) cyfiawnder ieuenctid lleol.

**B.** Monitro eich dull OOCR ar gyfer plant a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, ac anghymesuredd.